

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fawrth 2022.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones Michael Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen - Golan, Delyth Evans Manon Jones Evans - Pentrefelin, Dafydd Thomas - Penmorfa.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwilym Evans, Huw Pritchard, Clifford Williams, Iddon Edwards, Edward Evans, Gwenno Emlyn Huws, Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

Ar ddechrau'r cyfarfod cofiwyd am bobl Wcráin sydd dan warchae Rwsia.

- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - neb.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 3/2/22 Michael Jones yn cynnig ei bod yn gywir ac Amanda N Owen yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Prenteg

Mynwent Prenteg - Clerc i gysylltu gyda'r ymgymrwyr i gael cadarnhad ei bod wedi symud y pridd.

Hwb Eifionydd - ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad ynglŷn â'r oriau a dreuliodd y Meddygon yn y Meddygfeydd yn ystod mis Ionawr. Nid yw Mabon ap Gwynfor AC wedi ateb i'r llythyr a yrrwyd.

Cyngor Tref Porthmadog am roi'r eitem ar yr Agenda ar gyfer mis Mawrth.

Cyngor Tref Criccieth heb ymateb.

Cyngor Cymuned Llanystumdwy heb ymateb.

Pentrefelin

Llwybr Cyhoeddus Bryn Melyn i Pentrefelin - Coed i lawr ar y llwybr. Mae'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi torri ffordd o gwmpas y coed ac wedi hysbysu asiant y perchennog tir o'r rhwystr.

Llwybr Hendregadredd Pentrefelin - Trefnu cyfarfod safle. Clerc i roi dyddiadau posib i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Goryrru yn y pentref - Adroddodd y Clerc ei bod wedi siarad gyda Rhys Williams, Swyddog Ymholiadau Ganbwyll ynglyn a chael Arrive Alive yn y pentref. Cafwyd addewid y byddai'n pasio'r cais ymlaen i'r tîm priodol fyddai'n asesu'r broblem.

Parcio Ger y Llwyn, Pentrefelin- Cafwyd cyfarfod gyda'r perchennog i drafod y problemau parcio. Cafwyd addewid na fyddai'r fan yn parcio ar y lôn wedi i'r gwaith atgyweirio y tŷ orffen. Trafodwyd yr angen am safle parcio gyferbyn a'r tai.

Golan

Mynwent Bethel - gwaith atgyweirio bedd. Cafwyd addewid gan y Brodyr Kerr y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau rhywbryd yn ystod y pythefnos yn dechrau 21ain o Chwefror.

Llwyn Mafon - E-bost Asesiad Cerdded, Beicio a Marchogaeth. Cafwyd ymddiheuriad gan y Swyddog am yrru e-bost uniaith Saesneg a chopi Cymraeg o'r e-bost. Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw ei polisi gohebiaeth.

Materion Priffyrdd - Dŵr yn cronni ar y lôn rhwng Mynwent Dolbenmaen a Tyddyn Graig. Derbyniwyd ateb gan yr Adran Briffyrdd yn nodi ei bod am archwilio'r safle a chysylltu gyda pherchennog y tir i gael caniâtad i droi'r dŵr i'r cae.

Canllawiau ail-gyfeirio traffig o ganlyniad i gau lôn - mae Arolygwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cyngor Gwynedd wedi cynnig mynychu cyfarfod mis Ebrill er mwyn egluro y broses sy'n cael ei ddilyn o ganlyniad i orfod cau lôn.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Garndolbenmaen trwy Tyddyn Du i Glandwyfach - dŵr ar y gwyneb. Penderfynwyd ail edrych ar y sefyllfa mewn mis.

Llwybr Ty'n Ffridd i Ffridd Newydd - Clerc i ofyn i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy a fyddai'n fodlon cyfarfod Cyngorwyr Garndolbenmaen i drafod cyflwr y llwybr.

9 Adroddiad Pentrefi

Garndolbenmaen

Goleuadau stryd wedi cael eu uwchraddio heblaw am yr un tu allan i Siop Newydd. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt wneud hwn.

Nant Heddwch - tractor wedi ei barcio tu allan ers amser.

Ffrâm diogelwch o amgylch plot o dir wedi disgyn.

Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Arwydd 'Araf' - mae arwydd wedi ei osod i'r cyfeiriad allan o'r pentref. Clerc i wneud cais i Gyngor Gwynedd i gael gosod arwydd i'r cyfeiriad i fewn i'r pentref.

Golan

Man parcio uwchlaw Clennenau - dŵr yn codi o'r tarmac ac yn cronni o dan y bont. Tynnwyd sylw Cyngor Gwynedd at hyn ym mis Rhagfyr 2020. Cafwyd addewid y byddai Cyngor Gwynedd yn cysylltu gyda Bwrdd Dŵr Cymru, ond nid ydynt wedi datrys y broblem. Clerc i gysylltu eto.

Cwmystradllyn

Problem Baw Cŵn - mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n cerdded eu cŵn yn ardal Llyn Cwmystradllyn.

Derbyniwyd cwyn gan un o'r trigolion lleol am ymddygiad anghyfrifol rhai perchnogion cŵn. Rhai yn gadael y baw ar lawr, rhai yn ei roi mewn bagiau

priodol, ond yn gadael y bagiau ar lawr yn y maes parcio. Yn ddiweddar, mae rhai yn rhoi'r bagiau mewn biniau gwyrdd trigolion lleol.

Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwyned i ofyn iddynt osod bin mwy wrth y llyn ynghyd â pheiriant bagiau baw ci.

Ysbwriel - Cae Eithin Tew

Derbyniwyd lluniau o'r ysbwriel sydd wedi ei wasgaru wrth Cae Eithin Tew. Mae'r bin gwyrdd yn cynnwys eitemau a ddylid eu rhoi yn y cart gylchu glas. Clerc i yrru'r lluniau at Cyngor Gwynedd.

Prenteg

Angen paentio'r llinell wen ar y lôn o Tremadoc i Beddgelert. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Hwb Eifionydd

Trafodwyd y trafferthion mae trigolion yn cael wrth archebu moddion. Ymddengys fod diffyg cyfathrebu rhwng y Meddygfeydd a'r Fferyllfeydd. Mae trigolion yn cael neges i ddweud fod y presgripsiwn yn barod i'w gasglu, ond yn cyrraedd y fferyllfa a darganfod nad yw'r presgripsiwn yn gyflawn.

Cafwyd addewid ym mis Rhagfyr 2021, ei bod am lythyru gyda'r cleifion i'w hysbysu o'r newidiadau. Nid yw hyn wedi digwydd.

Clerc i gysylltu gyda Hwb Eifionydd i holi pa bryd fydd y cylchlythyr yn cael ei yrru at y cleifion. Hefyd cysylltu gyda Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru i'w hysbysu o safon y gwasanaeth yn y Meddygfeydd.

10 Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd adnewyddu'r cytundeb gyda A Hughes-Jones a'u Cwmni. Megan Lloyd Williams yn cynnig a John Jones yn eilio.

11 Dyddiad a Lleoliad Cyfarfod Blynyddol

Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan ar y 12fed o Fai.

12 **Mapiau OS**

Trafod ym mis Ebrill.

13 **Gwasanaeth Tân yr Ardal**

Bu tân yn ddiweddar mewn Canolfan Arddio yn Nhremadog. Trafodwyd bod brigadau tân o drefi cyfagos wedi cyrraedd lleoliad y tân cyn gynted â brigad dân Porthmadog. Mynegwyd pryder am effeithlonrwydd y gwasnaeth i'r ardaloedd gwledig o amgylch Porthmadog. Clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Tân i holi beth yw ei cynlluniau ar gyfer yr ardal.

14 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - ail rybudd cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â Thafarn Faig, Pant Glas, Garndolbenmaen o 28/2/2022. Diweddariad ar ymgysylltu Ardal Ni 2035.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Unllais Cymru - Hyfforddiant Chwefror - Mawrth.
- b Unllais Cymru - Arolwg Cyfarfodydd Aml Leoliad Adran 47.
- c Unllais Cymru - Ymweliadau a Phrosiectau Tyfu Bwyd Cymunedol.
- ch Unllais Cymru - cyfarfod Pwyllgor Arfon/Dwyfor 2/3/22.
- d Clwb Moduro Harlech - Rali Goffa Merfyn Hughes 19 a 20/3/22.
- dd Mantell Gwynedd Bwletin Rhif 22.
- e Comisiynydd Ffiniau Cymru - Gwrandawiadau Cyhoeddus.

15 **Cynllunio**

Rhestrau - 4/2, 11/2, 18/2/22.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/2C Codi adeilad amaethyddol. Bryn Awelon, Garndolbenmaen. LL51 9UJ Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/2D Estyniad deulawr yn y cefn a'r ochr a chyntedd ar y blaen. Bryn Awelon, Garndolbenmaen. LL51 9UJ Dim gwrthwynebiad.

16 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - Eisteddfod Ryngwladol Llangollen 2022.

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£	253.33
Ffôn	=	£	10.00
Cyfrifiadur	=	£	15.00
HMRC	=	£	63.20
Papur Bro Lleu	=	£	17.00
<u>Ychwanegu</u>			
HSBC Costau 6/1/22 - 5/2/22	=	£	10.00
<u>Derbyniadau</u> - Henry Jones Cyf	=	£	135.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.57 Cyfredol £9,460.19

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan

- Hwb Eifionydd
- Llyn Cwmystradllyn - baw ci
- Ceisiadau Cynllunio
- Llwybr Cyhoeddus - Ysgol Garndolbenmaen trwy Tyddyn Du at Glandwyfach
- Ymgynghoriadau ar ail dai a chymunedau
- Cyfarfod Blynyddol

Gwefan: Cofnodion mis Chwefror.